YSGOL PENRHYN-COCH

Diolch am nifer o alwadau ffôn, llythyrau ac ati ar ôl i'r plant ymddangos ar y teledu yn "Songs of Praise". Mae'n amlwg i'r rhaglen yn gyfan gael derbyniad teilwng gan y gwrandawyr.

Balch oeddem o weld nifer o'r plant yn cystadlu'n Eisteddfod y Penrhyn a llongyfarchwn Sara Jones ar ennill y lle blaenaf yn y canu agored i blant o dan chwech oed a Cerys Humphreys ar ennill y darian yn y gystadleuaeth canu i blant o ysgolion y cylch. Da iawn chi!

Braf oedd gweld Elizabeth Read yn perfformio ar y llwyfan yn Neuadd Ysgol Penglais yn ddiweddar gyda Cherddorfa Plant Cylch Aberystwyth a dymunwn yn dda iddi eto fel aelod o Gerddorfa Ceredigion. Mae Elizabet yn cymryd diddordeb mawr mewn cerdd-oriaeth ac yn arbennig o dda ar y ffidil.

Cymerodd naw o ysgolion ran yn nhwrn ament pêl-droed y cylch yma ar y maes ym Mhenrhyn-coch un prynhawn braf a rhaid yw llongyfarch tîm Ysgol y Penrhyn ar ennill y bencam-pwriaeth.